***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 6

GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH

*Darpariaeth mewn gorchmynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol*

### 68 Tir ymgymerwyr statudol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â thir ("tir ymgymerwyr statudol")—

(a) os yw'r tir wedi ei gaffael gan ymgymerwyr statudol at ddibenion eu hymgymeriad,

(b) os oes sylw wedi ei wneud ynghylch cais am gydsyniad seilwaith cyn i'r archwiliad o'r cais gael ei gwblhau, ac nad yw'r sylw wedi ei dynnu yn ôl, ac

(c) os yw Gweinidogion Cymru, o ganlyniad i'r sylw, wedi eu bodloni—

(i) y defnyddir y tir at ddibenion cyflawni ymgymeriad yr ymgymerwyr statudol, neu

(ii) y delir buddiant yn y tir at y dibenion hynny.

(2) Ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ond cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael yn orfodol dir ymgymerwyr statudol i'r graddau y bo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ynghylch y materion a nodir yn is-adran (3).

(3) Y materion yw bod natur a lleoliad y tir yn golygu—

(a) y gellir ei brynu a pheidio â'i amnewid heb niwed difrifol i gyflawni'r ymgymeriad, neu

(b) os caiff ei brynu y gellir ei amnewid am dir arall y mae'r ymgymerwyr yn berchen arno, neu sydd ar gael iddynt i'w gaffael, heb niwed difrifol i gyflawni'r ymgymeriad.

(4) Nid yw is-adrannau (2) a (3) yn gymwys mewn achos sydd o fewn is-adran (5).

(5) Ni chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith ond cynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael yn orfodol hawl dros dir ymgymerwyr statudol drwy greu hawl newydd dros

**Statws** This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

dir i'r graddau y bo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ynghylch y materion a nodir yn is-adran (6).

(6) Y materion yw bod natur a lleoliad y tir yn golygu—

(a) y gellir prynu'r hawl heb niwed difrifol i gyflawni'r ymgymeriad, neu

(b) y gall yr ymgymerwyr unioni unrhyw niwed i gyflawni'r ymgymeriad, o ganlyniad i gaffael yr hawl, drwy ddefnyddio tir arall y maent yn berchen arno neu sydd ar gael iddynt i'w gaffael.

(7) Yn yr adran hon, mae i "ymgymerwyr statudol" yr ystyr a roddir i "statutory undertakers" gan adran 8 o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67) ac mae hefyd yn cynnwys yr ymgymerwyr—

(a) y tybir eu bod yn ymgymerwyr statudol at ddibenion y Ddeddf honno, yn rhinwedd deddfiad arall;

(b) sy'n ymgymerwyr statudol at ddibenion adran 16(1) a (2) o'r Ddeddf honno (gweler adran 16(3) o'r Ddeddf honno).

(8) Wrth gymhwyso'r adran hon i ymgymerwr statudol sy'n gorff gwasanaeth iechyd (fel y diffinnir "health service body" yn adran 60(7) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p. 19)), mae cyfeiriadau at dir a gaffaelir gan yr ymgymerwyr statudol neu sydd ar gael iddynt i'w gaffael i'w dehongli fel cyfeiriadau at dir a gaffaelir gan Weinidogion Cymru neu sydd ar gael iddynt i'w gaffael at ddibenion ei ddefnyddio neu ei feddiannu gan y corff.